# CYNGOR TREF PORTHMADOG

**COFNODION**
**PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL**
**Yn Y Ganolfan am 19.00 Nos Fawrth Ionawr 27ain 2026**

1. **Presennol:**

Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Dr. Melfyn Edwards (Is-gadeirydd), Cyng. Glenda Murray, Cyng. Jeremy Davies, Cyng. Alwyn Gruffydd.
Elfyn Lewis (Clerc).

**Ymddiheuriadau:**
Cyng. Carol Hayes, Cyng. Llywelyn Rhys, Cyng. Karena Owens, Cyng. Aled Griffith

**Absennol:**
Cyng. Edward Naish. Cyng. Michael Roberts

2. **Archwilio'r cyfrifon. (Mantolen hyd at Ionawr 20fed 2026).**

Derbynwyd yn gywir. Cynnig. Cyng. Alwyn Gruffudd. Eilio: Cyng. Dr. Melfyn Edwards.

3. **Trafod gwariant Nadolig 2025 a'r trefniadau am Nadolig 2026.**

Roedd Y Cyngor Tref dal yn aros am anfoneb gan Gyngor Gwynedd am y gost o roi y coed Nadolig yn eu lle a'u tynnu i lawr. Nid oedd yn bosib o ganlyniad i roi ffigwr terfynol o gostau dathlu'r Nadolig i Gyngor Tref Porthmadog. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn am yr anfoneb.

**Biliau i'w talu.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | Ian Cadmore | 4 x coed Nadolig | £340 |

( Roedd siec wedi ei gyrru iddo fel taliad yn enw y cwmni oedd ar yr anfoneb Coed Bryn-Ffynnon ond mae o wedi ei yrru yn ol gan ofyn i roi ei enw ef ar y siec).

**Penderfynwyd gofyn am anfoneb newydd yn ei enw ef.**

**<u>Ceisiadau Cynllunio:</u>**

Rhif Cais / Application No.: C26/0008/44/LL
Lleoliad Uned 19 Ystâd Ddiwydiannol Penamser, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NZ
Bwriad: Cais llawn i newid defnydd o class B1/B2 i class D2 i greu campfa a chanolfan ffitrwydd i ferched yn unig.
**Dim gwrthwynebiad.**

Rhif Cais / Application No.: C25/0928/44/CR
Lleoliad: Grisiau Mawr, Pencei, , Porthmadog, LL49 9AT
Bwriad: Gosod canllaw yng nghanol y grisiau.

**Gwrthwynebu ar y sail ei fod yn newid natur heneb sydd wedi bod yn rhan o'r dref ers 200 mlynedd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05.

Yn gywir,

Elfyn Lewis (Clerc)
02/02/26

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*